**CYNGOR BRO LLANGELER-31:03:2014**

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Mawrth 31ain 2014 yn Ysgol Bryn Saron, Saron, Llandysul am 7.30y.h.

1. **03/14 PRESENNOL:** Cyng. John Crossley[Cadeirydd], Jamie Ayres, Ian Davies, Delyth Evans, Brenda Jones,Christopher Jones, Nesta Jones, Mary Phillips, Marc Rees, Caroline Roberts, Dilwyn Smith, Adrian Thomas. John Wigley. Clerc – Stella Jones

   **HEFYD YN BRESENNOL:** Cyng.Sir - K Howell, PC I Ayers, Mr Stephen Kirkwood

   Cyn dechrau'r cyfarfod ffurfiol cafwyd amlinelliad gan Mr S H , y datblygwr sydd wedi prynu'r tir ochr arall i Heol y Dderwen ym Mhont Tweli, o'r hyn mae'n bwriadu ddatblygu. Yn dilyn hyn bu cyfle i'r Cynghorwyr ofyn cwestiynnau ynghylch y datblygiad.

2. **03/14 HEDDLU:** dwedodd bod PCSO G Augustus wedi dechrau hyfforddiant i fod yn blismon. Nododd hefyd bydd presennoldeb yr Heddlu Traffig yn amlwg iawn yn yr ardal yn y dyfodol. Hefyd bod Nawdd o £4,300 wedi ei roi gan ???er mwyn gorffen y bwrdd sglefrio yn y parc. Gofynnodd y Cynghorwyr i Bwyllgor y Parc i sicrhau bod dim ychwanegiad i'r yswiriant oherwydd hyn. Gofynnodd y Cadeirydd i ddymuniadau da y Cyngor gael eu pasio ymlaen i Gareth Augustus.

3. **03/14 YMDDIHEURIADAU:** Dim

4. **03/14 COFNODION :** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Chwefror 24ain 2014 a'u cael yn gywir.

   Cynigydd – Cyng. J Ayres
   Eilydd – Cyng. C Jones

5. **03/14 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Dim

6. **03/14 MATERION YN CODI :**

   6.i.09/13 – Toiledau Parc Puw – mae'r Cyngor Sir am wybod a yw'r Cyngor yn bwriadu cymryd gofalaeth – yn dilyn trafodaeth am yr hyn a glywyd ar y newyddion ynghylch argymhellion y dylai'r Cyngor Sir gadw toiledau ar agor cytunwyd y dylid aros i gael gweld beth fydd yn digwydd ar rhan hyn

   11.i.06/13 – Graffiti ar yr arosfan bws – wedi ei lanhau ond oherwydd y gwaith caled i gael yr ysgrifen i ffwrdd mae'r cemegolion wedi gadael adweithiad gwael ar y 'Perspex'

   6. xxviii. 01/14 – Grant i'r Wefan – y wefan yn fyw er bod ychydig twicio i wneud eto, diolchodd y Clerc i'r Cyng J Ayres am ei gymorth yn edrych dros polisiau a manylion erall.

   12.i.01/14 a) coeden wedi dod lawr – Clerc wedi rhoi gwybod i goedwigwr y Sir – gofynnodd i Cyng. C Roberts i edrych a yw'r gwaith wedi ei wneud

   12.v.01/14 a) reilen llaw wedi torri - wedi rhoi gwybod i'r warden – gofynnodd y Clerc i'r Cyng I Davies rhoi gwybod a yw wedi cael ei drwsio

   b) Mesurydd Traffig – Clerc heb gael gwybod nôl wrth y Cyngor Sir pam nad ydynt wedi gosod rhain ein eu lle.

7. **03/14 GOHEBIAETH:**

   i. Awel Aman Tawe – Cydweithfa Solar PV – Dogfen Cynnig Cyfranddaliadau – *nodwyd*
   ii. ULlC – Aelodaeth Un Llais Cymru ar gyfer 2014-15
   iii. CSG – Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin – cynlluniau i'w gweld ar wefan y Cyngor Sir. Er mwyn cofrestru i gael newyddion cysyllter a Isabel Macho – Imacho@sirgar.gov.uk
   iv. Yr Ardd - Cylchgrawn
   v. Radio Beca – cynnig Aelodaeth am £100 - *nodwyd*
   vi. e-bost – Bwletin Rhanbarthol Simon Thomas AC – cylchlythyrwyd
   vii. CSG – Canllawiau ynghylch llenwi Swyddi Achlysurol – Cynghorau Tref/Chymuned (er gwybodaeth yn unig)
   viii. e-bost – Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – *tabled*
   ix. e-bost – Lara Hayes – Golau Stryd Bancyffordd – yn dilyn ymweliad safle gyda Nigel Francis nododd y gall osod golau yno gan bod postyn trydan pen ucha'r pentref ac y gallai wneud hyn o fewn praesept cytundeb goleuo llwybrau.
   x. e-bost – ULlC – Diddymu a.150 (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Gweithredu – *nodwyd*
   xi. e-bost – CSG – Baw Cŵn – yn bwriadu cyd weithio gyda'r ysgolion lleol i geisio lleihau y budreddi ar y palmentydd ac yn gofyn a yw'r Cyngor yn barod i fod yn rhan o'r cynllun – cytunwyd ar hyn
   xii. e-bost – ULlC – Cenedlaethau'r Dyfodol Sir Gâr -seminar a gweithdy – *nodwyd*
   xiii. e-bost – Owenna Davies – Cofio y bardd a'r awdur T Llew Jones – cytunwyd y dylid gwneud cyfraniad o £1,000 ar yr amod bod yr hysbysfyrddau yn hollol ddwyieithog.
   xiv. e-bost – ULlC – Aelodau i Banel y Sector Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu - *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   xv. e-bost – Amgueddfa Wlân – gwahoddiad i chi i agoriad un o'i harddangosfeydd ddydd Iau 3/04/14.
   xvi. e-bost – Bwletin Rhanbarthol Simon Thomas AC – *cylchlythyrwyd*
   xvii. e-bost – Tony Williams – Graffiti – wedi ei drafod o dan Materion yn Codi eitem 6.
   xviii. Menter Gorllewin Sir Gâr – Defnyddio'r Parc – llythyr i'w basio ymlaen i bwyllgor y parc
   xix. CSG – Hyfforddiant ynghylch y Côd Ymddygiad – 21ain a 27ain Mai yn siambr y Cyngor Sir

____________________________________ Cadeirydd ________________________ Dyddiad

**8. 03/14 CYNLLUNIO**

**CEISIADAU CYNLLUNIO – YMGYNGHORI**

**Caniatâd**

W/27188 – Mr Eifion Thomas, Ogof, Cwmpengraig – gwneud gwaith atgyweirio i'r waliau ac ailosod llechi ar y to yn lle'r sinc sydd i'r sied gwehyddu presennol.

W29008 - Mr&Mrs W Morgan, 28 Ger y Llan, Velindre – adeiladu estyniad i ochr yr adeilad a newid deunydd o'r tir wrth ochr yr adeilad i safle parcio ddomestig.

W/29392 – B & JA Pannett & Leonard, Tai-allan ym Mrynglas, Cwmpengraig SA44 5XS – amrywiad o amodau 1 ar gais W/25527 i ddechrau'r gwaith cyn diwedd y 5 mlynedd o ddyddiad y cymeradwyiaeth

W/29486 - Mr & Mrs P & A Lee, Plot 2, Pentre Farm, Pentrecagal – adeilad annedd sengl arfaethedig

W/29553 – Mr Bettison, Brynmair, Bancyffordd – cyntedd storm i'r blaenolwg

**Cais Ymgynghori llawn**

W/29699 – Mrs Y Lloyd, Safle cyfagos i Brogeler, Llangeler – dtblygiad o chwech tŷ sengl ar dir dynodedig i'w ddatblygu ar CL2 o'r CDLl – *dim barn*

W/29700 – Mr & Mrs Wyn Jones, plot ar dir cyfagos i Alandel, Bancyffordd – datblygiad newydd arfaethedig (ailgyflwyniad o W/28752 a dynnwyd nôl 10:10:13) – *dim barn*

W/29717 – Mr Jon Northwood & Miss Laura Peckam – Plot 1 ar Fferm Pentre, Pentrecagal SA38 9HT – datblygiad arfaethedig o dŷ sengl – *dim barn*

W/29735 – KR & SB Lowry, tir ar Fferm Gilwen, NCE SA38 9JA – adeiladwaith o adeilad i anheddu gwartheg godro – *dim barn*

W/29778 – Wynford Jones, Cilmelyn, Heol y Dderwen SA44 4RP – adeiladu garej ddomestig un llawr yn Cilmelyn – *dim barn*

W/29803 – S Street, Cryngae, Drefach SA44 5YW - newid defnydd o adeilad dianghenraid i ffurfio gosod tŷ gwyliau – *dim barn*

W/29838 – Adam Booth, Penrhiw, Velindre SA44 5XU – ffrâm cludadwy i storio defnyddiau trael peiriannau – *dim barn*

W/29842 – Mr John Baldwin, Tegfan, Danhiraeth Rd, Felindre SA44 5XJ – estyniad llawr gwaelod a newidiadau i'r uchder y nenfwd ac arwynebedd llawr y llawr cyntaf – *dim barn*

W/29848 – Helen Maxwell, Pant y Bara, Felindre SA44 5XT – cais cynllunio llawn i ddymchwel anedd-dŷ presennol & ac adeiladu anedd-dŷ arall – *dim barn*

## 9. 03/14 MATERION ARIANNOL

**Anfonebau**

i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 31/03/2014 ........ £75.42
ii.HIRIO YSGOL BRYN SARON – cyfarfod 31/03/14 ........ £10.01
[ caniatad i dalu'r ddau uchod pan ddaw'r biliau mewn ]
iii. SOLUTIONS FACTORY ( creu gwefan) ........ £540.00
iv. TRYWYDD - cyfieithu yng nghyfarfod 25/11/2013 ........ £60.00
v. SWALEC – Golau Nadolig Pont Tweli ........ £163.16

Arian yn y Banc ar 10/03/2014........ £8,908.33

**Cais an Gefnogaeth Ariannol**

Llanelli Centre for the Deaf – *nodwyd*
Cymdeithas Cofio T Llew Jones – trafodwyd dan eitm 7. xiii

**10. 03/14 ADRODDIAD PWYLLGOR**

Ychydig o waith i'w wneud eto ar yr 'Audio Trail'

**11. 03/14 MATERION ANGEN TRAFODAETH**

1. Gair gan berchennog tir ger Heol y Dderwen Pont Tweli
2. Y Rhyfel Byd Cyntaf – nododd y Clerc bod Ysgol Bryn Saron yn bwriadu gwneud rhyw fath o ardd goffa, a phlannu pabis coch, bydd y prifathro yn rhoi mwy o wybodaeth i'r Clerc o'i cynlluniau. Mae'r Amgueddfa Wlân yn bwriadu plannu pabis coch hefyd. Gofynnwyd i'r Clerc awgrymu i'r ddau sefydliad blannu pabis gwyn hefyd.

**12. 03/14 SYLWADAU'R CYNGHORWYR:**

i. Cyng D Evans – Coed yn Bancyfelin – CyngSir K Howell i drafod
ii. Cyng J Wigley – a) angen adlewyrchyddion rhwng yr hen Reithordy a Dyffryn – Clerc i edrych mewn i'r mater
b) sbwriel ar y palmentydd yn Felindre – Clerc i ofyn i'r ysgol leol a fyddent yn barod i wneud gwithgaredd casglu sbwriel
c)nododd bod angen tynnu'r fflagiau lawr ym mhentref Felindre gan eu bod yn anniben

____________________________ Cadeirydd ____________________ Dyddiad

iii. Cyng J Crossley – Cinio'r Cyngor i'w gynnal ar Fai 9ed yn y Llew Coch, Drefach
iv. Cyng Sir K Howell – Llwybrau Diogel – ffurflenni i fod gyda'r Cyngor Sir erbyn Mai 12ed 2014

**CYFARFOD NESAF**

Cynhelir y Cyfarfod Misol nesaf Nos Lun, Mawrth 31ain 2014, am 7.30y.h yn Ysgol Bryn Saron, Saron.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15y.h

_________________________________ Cadeirydd ______________________ Dyddiad